Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Beuno Sant Y Bala**
**Heol y Castell**
**Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7UU**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Beuno Sant wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ebrill 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifenedig. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu'n effeithiol ac estynedig mewn ystod addas o ffurfiau ar draws meysydd dysgu amrywiol. Mae bron pob disgybl yn cyflawni i safon sy'n gymwys i'w hoed a'u gallu.

Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu darnau estynedig priodol mewn ystod o ffurfiau gwahanol ac i wahanol bwrpasau yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau safonol yn annibynnol. Mae'r disgyblion hyn yn sillafu ac yn atalnodi'n gywir yn y ddwy iaith, gan amrywio brawddegau'n effeithiol. Maent yn deall sut i wella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig, ac yn ymateb yn gadarnhaol i sylwadau athrawon.

Mae safonau cyflwyniad gwaith a llawysgrifen disgyblion yn dda.

Mae athrawon a chymorthyddion wedi derbyn hyfforddiant ac arweiniad defnyddiol o fewn yr ysgol ac mewn cydweithrediad effeithiol gydag ysgolion eraill. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o safonau gwaith a lefelau cyrhaeddiad y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae gan athrawon ddisgwyliadau cadarn ac uchel o waith eu disgyblion er nid yw hyn bob tro'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon i gyd yn defnyddio strategaethau penodol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion o bob oed baratoi'n ystyrlon ar gyfer ysgrifennu darnau safonol o waith yn annibynnol.

### Argymhelliad 2: Codi lefelau presenoldeb y disgyblion

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol er mwyn hyrwyddo presenoldeb disgyblion. Mae hyn wedi arwain at gynnydd arwyddocaol yng nghanran presenoldeb disgyblion dros y flwyddyn ddiwethaf. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd presenoldeb da. Mae system wobrwyo a gwasanaethau dathlu yn llwyddiannus o ran hyrwyddo disgwyliadau uchel ymhlith y disgyblion a'r rhieni. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol er mwyn gwella canran presenoldeb disgyblion.

**Argymhelliad 3: Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn fwy effeithiol yn enwedig o ran y cynllunio a'r addysgu**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a medrau disgyblion. Maent yn sicrhau profiadau a gweithgareddau heriol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cynllunio manwl yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu medrau meddwl a meithrin dysgu annibynnol yn gymwys i'w hoed a'u gallu. Gwneir defnydd effeithiol o'r ardaloedd dysgu pwrpasol a'r ardal allanol er mwyn ysgogi a datblygu medrau bron pob un o'r disgyblion.

Mae'r athrawes yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn fedrus er mwyn datblygu medrau'r disgyblion. Mae'r cynlluniau a'r addysgu da yn sicrhau bod y staff yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn sicrhau dilyniant a pharhad wrth ddatblygu medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r staff yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn fedrus i ddatrys problemau pob dydd. Mae defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n cynorthwyo i ddatblygu medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae cymorthyddion dysgu y Cyfnod Sylfaen yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn cefnogi grwpiau o ddysgwyr. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn datblygu dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn effeithiol.

Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant buddiol er mwyn datblygu eu gwybodaeth am ddulliau addysgu ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Maent hefyd wedi cryfhau eu dealltwriaeth am ddisgwyliadau ddeilliannau'r cyfnod trwy sefydlu rhwydweithiau dysgu proffesiynol gydag ysgolion eraill.

**Argymhelliad 4: Ymestyn lefel yr her i ddisgyblion o allu uwch ar draws yr ysgol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi datblygu cynlluniau gwaith sy'n darparu gweithgareddau priodol i ddisgyblion o wahanaol alluoedd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ymarfer eu medrau meddwl a datrys problemau yn gyson. Mae dull yr ysgol o ymateb i waith disgyblion, ac i nodi targedau unigol, hefyd yn gosod her benodol ar gyfer pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn ddigon cyson ar draws yr ysgol ac nid yw natur y targedau bob amser yn ddigon ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwyaf abl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mwy abl ar draws yr ysgol yn cyrraedd safonau sy'n briodol i'w gallu.

Mae disgyblion mwyaf abl y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddefnyddio strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â geirfa anodd neu ddieithr. Llwyddant i gyfleu ystyr y darnau darllen trwy ddefnyddio goslef llais a gallant drafod y cynnwys yn ddeallus.

Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion mwyaf galluog ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o safon uchel iawn. Maent yn llwyddiannus wrth greu darnau estynedig sy’n gywir, yn cynnwys geirfa gynyddol gyfoethog, ac yn dangos gafael cadarn ar amrywiaeth o ffurfiau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r disgyblion mwyaf abl yn ddysgwyr annibynnol aeddfed, sy’n cyflwyno gwaith o safon uchel yn eu llyfrau gwaith. Maent yn defnyddio geirfa gyffredinol gref yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â geirfa a thermau sy’n benodol i bwnc neu faes dysgu. Cyfoethogant eu gwaith ysgrifennu’n llwyddiannus trwy ddefnyddio ansoddeiriau, cymariaethau a phriod-ddulliau.

**Argymhelliad 5: Mireinio’r gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall yn well yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae gan yr ysgol bolisi a strategaeth glir ar sut i ymateb i waith disgyblion ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio’n llwyddiannus. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio’n rheolaidd ac mae sylwadau’r athrawes yn cyfeirio bron bob tro at y meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn cynnwys nodi beth y maent wedi’i gyflawni’n dda a’r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Nodwedd gref o’r Cyfnod Sylfaen yw’r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion i ymateb i sylwadau’r athrawes ac i ddangos eu dealltwriaeth o’r meini prawf llwyddiant trwy nodi esiamplau. O ganlyniad, mae’r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael effaith dda iawn ar godi safonau yn y Cyfnod Sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae’r athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol ac yn cynnig sylwadau da sy’n galluogi disgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn ddigon cyson ar draws y dosbarthiadau. Erbyn diwedd y cyfnod, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion benderfynu ar feini prawf llwyddiant eu hun a’u defnyddio’n fedrus i asesu gwaith ei gilydd. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i ymateb yn briodol i sylwadau’r athrawon ac i ailddrafftio darnau penodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau y rhan fwyaf o ddisgyblion erbyn diwedd y cyfnod. Mae’r athrawon yn darparu targedau perthnasol i bron pob disgybl er mwyn datblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw’r targedau hyn yn cynnig digon o her i ddisgyblion mwy abl a thalentog.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu a monitro prosesau’r ysgol yn fwy effeithiol er mwyn gwella cyflawniadau disgyblion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer sicrhau gwelliant yn y ddarpariaeth a safonau ac mae’n ei rhannu’n effeithiol gyda phawb sydd ynghlwm wrth yr ysgol. Mae’n gosod cyfeiriad strategol eglur ar gyfer yr ysgol ac yn rhoi arweiniad cadarn i athrawon ac i’r corff llywodraethol. O ganlyniad, mae ganddynt well ymwybyddiaeth o’u rôl fel arweinwyr ac maent yn fwy abl i adnabod cryfderau ac agweddau i’w

gwella yn yr ysgol.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu a monitro bellach yn gadarn ac mae'r argymhellion sy'n deillio ohonynt yn gosod cyfeiriad clir i weithredu dilynol. Mae'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro a'i arfarnu'n effeithiol.

Yn dilyn hyfforddiant defnyddiol ar hunanarfarnu a dulliau ysgrifennu adroddiadau, mae'r athrawon wedi cymryd rhan effeithiol mewn gweithgareddau fel craffu ar lyfrau ac arsylwi ar wersi. Yn yr un modd, mae llywodraethwyr yn cymryd rhan weithredol a defnyddiol yn y broses hunanarfarnu trwy graffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, ac arsylwi gweithgareddau yn yr ysgol. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn o ansawdd uchel, ac yn llwyddiannus wrth adnabod meysydd sydd angen eu datblygu.

**Argymhelliad 7: Datblygu dealltwriaeth y llywodraethwyr am ddata perfformiad yr ysgol er mwyn iddynt herio'r ysgol a gweithredu'n fwy effeithiol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae bron pob aelod o'r corff llywodraethol wedi derbyn hyfforddiant defnyddiol ar ddadansoddi data perfformiad yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg. O ganlyniad, maent yn herio'r ysgol yn effeithiol o ran perfformiad a chynnydd tuag at dargedau'r cynlluniau gwella. Mae'r corff llywodraethol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fynd i'r afael â thanberfformio ac i wneud penderfyniadau strategol.

Mae'r corff llywodraethol wedi sefydlu is-bwyllgorau defnyddiol i herio a chefnogi'r ysgol i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn monitro'r ddarpariaeth a safonau. Mae adroddiadau monitro llywodraethwyr yn gynhwysfawr ac o ansawdd da. Maent yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth i sicrhau bod y corff llywodraethol yn ymwybodol o welliannau a diffygion yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.